

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 16/3/2015
Minutes of the meeting held on Monday evening 16/3/2015

Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair)	Mr Elfed Jones	Mrs Julia Dobson
Mr Tony Hughes	Mr Dei Owens	Mr David Livingstone
Mr Jack Longman	Mrs Carys Davies	

Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng./Cllr Richard Jones	Cyng./Cllr Wil Hughes (hwyr/late)	Cyng./Cllr Aled M Jones (hwyr/late)
--------------------------	-----------------------------------	-------------------------------------

Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)	Eira Parry (Cyfieithu / Translation)	Albert Owen AS/MP (hwyr/late)
Esther Pritchard	Roger Dobson	Steve Knight Gregson (GC/NG)
Gavin Crook (Grid Cenedlaethol/National Grid)		

Ymddiheuriadau / Apologies:

Mrs Marilyn Hughes	Ms Rose Griffiths	Rhun ap Iorwerth AC/AM
--------------------	-------------------	------------------------

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.
Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio / *Planning* - Richard Jones, Carys Davies, Tony Hughes
Wylfa Newydd – Julia Dobson

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Jack Longman, eiliwyd gan Elfed Jones.
The minutes were accepted as a true record. Proposed by Jack Longman, seconded by Elfed Jones.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Toiledau / Toilets

Bydd toiledau'r traeth yn cael eu hagor Mawrth 28, ond mae problemau gyda'r toiled anabl ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor Sir yn gweithio i ddatrys y mater cyn gynted â phosib. Nid oes unrhyw broblemau gyda tholedau'r Stryd.

The beach toilets will be opening on Marth 28th, but there are issues with the disabled toilet at present. The county council are working to address the matter as soon as possible. There are no issues to report regarding the street toilets.

4.2 Croesfan / Crossing

Mae'n debyg bydd y twnnel yn cael ei ail agor fel ateb byr dymor i'r broblem. Bydd Cyng. Richard Jones yn trafod ymhellach gyda Mr Huw Percy i weld sut fydd y twnnel yn cael ei reoli. Nodwyd pryder nad oedd y twnnel yn addas ar gyfer defnydd gan rieni a phlant ifanc mewn pramiau na phobl anabl.

It appears that the subway will be re-opened to address the issue in the short term. Cllr Richard Jones will speak with Mr Huw Percy to see how the subway will be managed. It was noted that the subway was not suitable for parents with young children in pushchairs or disabled users.

4.3 Hen Waith Brics / Old Brick Works

Mae'r arolwg wedi cael ei gwblhau yn yr wythnos diwethaf ac rydym yn disgwyl adroddiad.
The survey was completed last week and we are waiting upon receipt of the report.

4.4 **Bonc y Môr**

Diolchwyd i Dei Owens am ei waith ym Mhonc y Môr, mae'r ardal wedi twtio yn arw ac mae'r gwaith o safon; fe nodwyd hynny gan GeoMon ar eu hymweliad diweddar i Gemaes. Diolchwyd i Elfed Jones am gydlynu'r gwaith.

Dei Owens was thanked for his work at Bonc y Môr, the area is very much improved and the work of a high standard, as noted by GeoMon during their recent visit to Cemaes. Elfed Jones was thanked for coordinating the project.

5 **Cyllid / Finance**

5.1 **Adroddiad y Pwyllgor / Finance Committee Report**

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod diwethaf gan Tony Hughes, a chafwyd diweddariad ar rai o'r materion a drafodwyd.

- Caffi Traeth - Mae Chris Hughes wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyngor. Trafodwyd ei gynnig am gytundeb tair blynedd gyda chodiad yn y rhent, a gwaith adnewyddu i'r adeilad. Cytuno derbyn ei gynnig a gofyn i'n cyfreithiwr drefnu cytundeb cyfreithiol gan nodi bydd y denantiaeth yn mynd i dendr ar ddiwedd y tair blynedd. Cytuno bod amodau tocynnau parcio i aros yr un peth. Bydd posib defnyddio'r arian a geir wrth godi'r rhent i wella tu allan yr adeilad.
- Les Cae Chwarae Treglele - mae'r pwyllgor cyllid am gynnig prynu'r tir gan nad yw'r perchnogion am gynnig les hir dymor. Pawb yn gytûn.
- Clwb Ffitrwydd - wedi gofyn am gadarnhad na fydd y rhent yn codi eto am gyfnod o dair blynedd. Pawb yn gytûn.
- Mae cofrestr asedau wedi ei gwblhau yn fras ar gyfer pwrpas yr yswiriant. Mae peth gwaith eto i'w gwblhau yn llawn.
- Les Cae Pêl Droed - Cytuno na fydd y rhent yn codi am gyfnod y les. Mae'r les yn nwylo cyfreithwyr y clwb ar hyn o bryd.

Tony Hughes gave a report from the last meeting, and members were given an update on some of the matters discussed

- *Beach café - Chris Hughes has been in contact with the Council. His proposal for a three year contract was discussed, including an increase in the rent and work to improve the inside of the building. It was agreed to accept his offer and to ask the solicitor to draft a legal agreement noting that the tenancy will be put to tender at the end of the three year period. Agreed that the terms for the [parking tickets remain the same. It may be possible to use the money from the increase in rent to improve the outside of the building.*
- *Treglele Play Area Lease – the finance committee propose to purchase the land as the owners do not wish to enter into a long term lease. All agreed.*
- *Fitness club – have asked for confirmation that the rent will not increase again for a three year period. All agreed.*
- *The asset register has been completed for insurance purposes; some work is yet to be done to complete the document.*
- *Football Field Lease – agreed that the rent will not be increased during the lifetime of the lease. The lease is currently with the club's solicitor.*

5.2 **Yswiriant / Insurance**

Ar ôl peth trafod, penderfynwyd derbyn pris Zurich am gyfnod o dair blynedd. Roedd yr hyn a gynigwyd ganddynt gymaint yn fwy nag adnewyddu'r polisi gyda Aon.

Following discussion, it was agreed to accept the quote from Zurich for a three year period. The cover offered by Zurich was far greater than the renewal offered by Aon.

5.3 **Llyfrgell / Library**

Trafodwyd cynnig y Cyngor Sir sef £500 y flwyddyn a 6% o gostau rhedeg yr adeilad. Cyfanswm o £25 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae'r pwyllgor cyllid yn hapus a manylion y cynnig, aelodau eraill hefyd yn gytûn,

gan nodi ei fod hefyd yn ffordd o gadw'r adeilad ar agor i'r gymuned.

The County Council's proposal was discussed i.e. £500 per annum and 6% of the building's running costs. A total £25 a week on average. The finance committee are happy with the content of the proposal, other members also agreed to the proposal noting that it was also a way of safeguarding the building for the community.

5.4 Taliadau / Payments

Cymeradwywyd y taliadau canlynol / *the following payments were approved for payment –*

OD Owens (Bonc y Môr) £1800
D Owen (toiledau / toilets) £11.95
Scottish Power £125.60
A Owen (llwybrau / footpaths) £684.00
OD Owens (llwybrau / footpaths) £268.66
Zurich (Yswiriant / Insurance) £1539.56

6 Cynllunio / Planning

Nodwyd dau gais cynllunio / *two applications were noted –*

- Canolfan Treftadaeth / Heritage Centre (20C156C/AD) – cefnogi / *support*
- Wylfa Newydd – er gwybodaeth / *for information*

7 Golau ger yr Harbwr / Light by the Harbour

Mae peth cwyno gan drigolion lleol am y golau newydd ond gobeithir bod y mater wedi ei ddatrys gyda'r trigolion a'r Cyngor Sir yn barod. Mae camau eisoes wedi eu cymryd.

There have been some complaints regarding the new light however it is hoped that the issue has now been addressed by the County Council and local residents. Actions have already been taken.

8 Blwch Post / Post Box

Trafodwyd yr angen am flwch post ar y stryd yn y pentref. Mae'r unig flwch yn siop McColls. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Post Brenhinol i ofyn a oes modd cael blwch ar y stryd.

The need for a post box on the street in Cemaes was discussed. The only post box is within McColls' shop. The Clerk was asked to contact the Royal Mail to ask if it would be possible to have a box placed in the street.

9 Gohebiaeth / Correspondence

9.1 Cafwyd diweddariad gan Glwb Cymdeithasol Wylfa.

An update was provided by the Wylfa Sports and Social Club.

9.2 Cafwyd llythyr gan Horizon er gwybodaeth. Trafodwyd y posibilrwydd o gyfarfod a Horizon pob yn ail fis er mwyn sicrhau bod pryderon y gymuned yn cael eu nodi, a bod gwybodaeth yn cael ei rannu.

A letter was received from Horizon for information. The possibility of meeting with Horizon every other month was discussed to ensure that the community's concerns are noted and that information is shared.

9.3 Cafwyd gwahoddiad gan Gwmni Cemaes i'w agoriad swyddogol 30/4/2015. Bydd Elfed Jones a Julia Dobson yn mynychu.

An invitation was received from Cwmni Cemaes to their official opening 30/4/2015. Elfed Jones and Julia Dobson will represent the Council.

9.4 Cafwyd llythyr gan bwyllgor y Carnifal yn gofyn am gael cadw cadeiriau a byrddau yn y container.

The Carnival committee have requested to store chairs and tables in the container.

10 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

10.1 Dyddiad Cyfarfod Cynllun Datblygu Lleol / Local Development Plan Meeting Date

Cytuno cynnal cyfarfod arbennig nos Lun Mawrth 23 am 7 o'r gloch yn y Llyfrgell.
Agreed to hold a special meeting on Monday 23rd March for 7pm at the Library.

10.2 Arwyddion Twristiaeth / Tourism Signs

Dangoswyd cynlluniau ar gyfer arwyddion newydd - mae'r Cyngor Sir wedi cael grant i dalu amdanynt. Cytuno dylid cael logo'r Cyngor Cymuned arnynt, ond heb y cyfeiriad e-bost rhag ofn iddo newid yn y dyfodol. Bydd Elfed Jones yn parhau i drefnu a swyddogion y Cyngor Sir.

Designs were shown for the new signs – the County Council have secured a grant to pay for them. It was agreed to include the community council logo, but without the email address as it may change in the future. Elfed Jones will continue to liaise with the county council officers.

11 Wylfa Newydd

Dim diweddariad / No update

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Ebrill 20, 2015, am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.
The next meeting will be on Monday evening April 20, 2015 at the library for 7pm.

13 Cyflwyniad gan y Grid Cenedlaethol / National Grid Presentation

Croesawyd y ddau gynrychiolydd o'r Grid Cenedlaethol i Gemaes a diolchwyd iddynt am ddod i gyfarfod a'r Cyngor.

Rhoddyd cyflwyniad i'r aelodau cyn cael cyfle i ofyn cwestiynau am gynnwys y cyflwyniad a'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

Cafwyd deall mai'r Grid Cenedlaethol (GC) sydd yn gyfrifol am gysylltu cymunedau i'r ynni sy'n cael ei greu drwy wahanol ffynonellau drwy gydol y DU yn ogystal â chysylltiadau ag Ewrop. Y GC sydd berchen ar y strwythurau a'r rhwydwaith eang yma. Yn gyfreithiol, mae'n rhaid iddynt baratoi a chynnig ffordd i allu symud ynni a gyflenwir o'r ffynhonnell gynhyrchu e.e. Wylfa Newydd i'r rhwydwaith ble mae ei angen.

Mae gwahanol opsiynau ar gyfer symud yr ynni a wneir yn Wylfa Newydd i'r is-orsaf ym Mhentir eisoes wedi eu trafod - 1) dros y tir, 2) o dan y môr, 3) rhannol dros y tir a rhannol o dan y môr. Cafwyd wybod nad yw'r dechnoleg yn bod ar hyn o bryd i fynd a'r ceblau tanddwr, ac felly y buasai gwaith o'r fath yn gostus iawn ac yn peri risg technolegol uchel. Gyda hyn, dros y tir yw'r opsiwn mwyaf ffafriol gan y GC.

Mewn datganiad yng nghynt yn y flwyddyn, cafwyd wybod mai'r 'rhodfa oren' fyddai mwyaf ffafriol, gan ddilyn yr un llwybr a'r peilonau presennol. Nodwyd bod hyn yn dilyn gwrthwynebiad gan Gynghorwyr Sirol a Chynghorau Cymuned ledled Môn. Mewn ymateb, cafwyd wybod bod dau gam ymgynghori ac felly dau gyfle i fynegi barn ar y cynllun eto i ddod.

Cydnabyddwyd bod angen ar gyfer cysylltiad o'r fath ond hefyd y pwysigwydd o gael cydbwysedd rhwng y costau i'r cwmni, a'r effaith ar y cymunedau lleol, a'r ynys yn ei gyfanrwydd. Ni fydd Cyngor Môn yn gwneud y penderfyniad ar y ceisiadau cynllunio ar brosiect o'r fath, yn hytrach y Llywodraeth yn Llundain fydd yn gyfrifol.

Fe ddatganodd Wil Hughes ei fod yn amlwg o'r cyflwyniad mai ar draws y tir oedd y GC am fynd, gyda rhan fach o dan y môr wrth groesi'r Fenai. Fe ofynnodd pam nad oedd yn bosib cysylltu Wylfa yn unionsyth a ble bynnag oedd y cyflenwad am fynd i gyd tan ddŵr? Mae datganiad diweddar fod trydan o'r Alban yn dod cyn belled â Wirral (420km) yn gyfan gwbl danddwr. Deallwyd gan y GC mai tanddwr oedd yr opsiwn mwyaf ffafriol a mwyaf poblogaidd yn ystod eu hymgyngoriad yn 2012, fodd bynnag bod y gost o osod ceblau tan

ddaeear a tanddwr yn rhy uchel dros bellter bach megis Môn i Wynedd. Byddai angen ceblau arbenigol ac is orsafoedd penodol ac felly ni fyddai yn gynaliadwy gosod y fath system.

Bydd ymgynghoriad eto yn 2016 unwaith bydd manylder i'r cynlluniau a'r cynigion.

Fe ofynnodd Wil Hughes beth oedd safbwynt y GC ar economi'r Ynys gan eu bod yn pwysleisio cymaint ar gostau a chynladwyedd eu datblygiadau, heb edrych yn iawn ar yr effaith y bydd yn ei gael ar y gymuned a'r economi leol. Mae'r Ynys yn ardal hardd iawn ac yn ddibynnol ar dwristiaeth. Nid oes gennym unrhyw ddiwydiannau mawr eraill. Gofynnwyd i'r GC beisio a bod yn frysiog i wneud unrhyw benderfyniadau ac i wrando ar y gymuned.

Cafwyd wybod mewn ymateb i gwestiwn gan Aled M Jones bod oes y ceblau a'r strwythurau yn 40 mlynedd. Pwysleisiodd pwysigrwydd cost amgylcheddol, a'r effaith ar yr ynys. Buasai ceblau tanddwr yn gyfan gwbl yn grêt, ond mae angen cydweithio gyda'r mudiadau ar yr ynys i ddatblygu rhodfa fyddai'r mwyaf derbynol gan bobl yr ynys a'r GC. Cydnabyddwyd hyn gan y GC ond pwysleisiwyd eto'r gost o wneud y fath waith, a'u bod yn ceisio cael rhwydwaith yn ei le a fyddai ar gael ar gyfer y dyfodol petai unrhyw ddatblygiadau eraill. Nodwyd y dylai unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol orfod talu am gysylltu â'r rhwydwaith fel rhan o'u prosiect. Nid yw cael dwy res o beilonau yn croesi'r ynys yn deg.

Fe ofynnwyd am y posibilrwydd o ddefnyddio ceblau Alwminiwm Mon, a phibellau Shell, ond deallwyd na fyddent yn ddigonol ar gyfer maint y cyflenwad fydd yn cael ei gynhyrchu yn Wylfa Newydd. Fe gydnabyddwyd fodd bynnag y byddai posib dilyn yr un llwybr a'r pibellau, a mynd a'r ceblau tan ddaear.

Fe nododd Albert Owen nad oedd gan y GC unrhyw fwiad o ddatblygu unrhyw beth dim ond y rhodfa oren, ac nad oeddent wedi bod yn ymgynghori ac unrhyw ardal arall e.e. Penfro. Dim ond £40 miliwn o wahaniaeth sydd rhwng y ddau opsiwn - dros oes y prosiect - £1m y flwyddyn. Nid yw hyn yn gost fawr i'r fath prosiect. Fe ofynnodd Aled M Jones os oedd costau cyfreithiol ac iawndal wedi eu cynnwys yn y costau yma? Fe gadarnhaodd y GC nad ydynt wedi cyrraedd y cam yma o'r ymgynghori a chynllunio eto. Oedd unrhyw un o blaid y rhodfa oren?

Deallwyd gan y GC y byddai cynlluniau manwl, lluniau a gwybodaeth ar gael fel rhan nesaf o'r ymgynghoriad. Yn dilyn yr ymgynghoriad yn 2012 mae 'hybrid' nawr yn opsiwn sydd yn cael ei ystyried ar gyfer y dyfodol. Ni fydd y GC yn ceisio am hawliau cynllunio a gweithredu nes ar ôl yr ymgynghoriad yn 2016. Nid ydynt wedi cyrraedd y cam yma o'r ymgynghori a chynllunio eto.

Fe gadarnhawyd y byddai'r peilonau a cheblau cyfredol yn aros dros y tir, ac na fyddent yn cael eu symud.

Nodwyd bod gan y GC cyfleoedd hyfforddi i bobl leol a'u bod yn gweithio gyda Choleg Menai i'w hyrwyddo.

Nodwyd bydd cyfarfod cyhoeddus Mawrth 26, a'i bod yn bwysig bod pob opsiwn yn cael ei gyflwyno'n deg.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am eu hamser.

The two representatives from the National Grid (NG) were welcomed to Cemaes and thanked for attending a council meeting.

The members were given a short presentation before an opportunity to ask questions about the presentation and the project in general.

It was understood that the NG is responsible for connecting communities to the energy produced by various methods throughout the UK and also connections with Europe. The NG owns the infrastructure and the wide network it forms. Legally, the NG must provide a way of moving the energy produced from the source e.g. Wylfa Newydd to the network where it is required.

The different options for moving the electricity produced at Wylfa Newydd to the sub-station at Pentir have already been discussed – 1) over land, 2) under the sea 3) partially over land, partially under the sea. Those present were informed that the technology for taking the cables undersea was not yet available, and as such the work would be very costly and pose a great technological risk. With this in mind, the option to route cables over land is the most favoured by the NG.

In a statement earlier in the year, we were informed that the 'orange route' would be most favourable, following the current line of pylons across the island. It was noted that this statement followed objections by the County Councillors and Community Councils across the island. In response, those present were told that there were still two consultation opportunities yet to take place where objections and concerns could be noted.

It was acknowledged that such a connection with the island is required, but that emphasis should be on striking the balance on the most economic option for the NG, and the effects on the local communities and the island on a whole. It was noted that the planning decisions will be made by the government in London (not by IACC).

Wil Hughes stated that it was obvious from the presentation that the NG had already decided on the orange route, with a small section of the line going under the Menai Straits. He asked why it was not possible to connect Wylfa with wherever the power was going directly under the sea. A recent statement declared that energy from Ayrshire was being cabled under the sea to the Wirral (420km). The NG explained that sub-sea had been the most popular and acceptable during their 2012 consultation, however the cost of laying cables underground and sub-sea would be too high for such a small span such as Anglesey to Gwynedd. Specialist cables would be required as well as specific sub-stations and as such it would not be economic to install such infrastructure.

Further consultation is to take place in 2016 when more details on the plans and proposals can be provided.

Wil Hughes asked the NG what their views were on the Island's economy as they emphasise so much on the costs and sustainability of their installations, without looking in great detail at their effects on the communities and local economy. The island is a beautiful area, and dependent on tourism. There are no other big industries. The NG were urged not to make any rushed decisions and to listen to the communities.

In response to a question from Aled M Jones, those present were informed that the life expectancy of the proposed infrastructure was 40 years. He emphasised the importance to examine the cost on the environment and the effect on the island. Sub-sea cables would be fantastic, however there is a need to work in partnership with the island's organisations to develop a connection that would be most favoured by all parties involved. The NG acknowledged this but the cost of such work was once again emphasised, and that the NG were looking at possible future developments and future connections that may be required to the grid. It was noted that any future developments should factor in the cost of connecting to the grid into their project costs. Having two rows of pylons crossing the Island is not acceptable.

It was asked whether it would be possible to re-use the cables going to Anglesey Aluminium and the old 'Shell' pipes but it was understood that they would not be big enough for the supply intended for Wylfa Newydd. It was acknowledged however that the NG may look at the route of the pipework as a possible underground route.

Albert Owen noted that the NG had no intention of developing anything other than the orange route, and that they had not consulted with any other area e.g. Pembroke. There is only £40 million difference between the two options – over the project life - £1m per annum. This is not a big cost for an organisation such as the NG. Aled M Jones asked whether legal costs and compensation had been factored into the costs quoted. The NG confirmed that they had not yet reached that stage of consultation and development. Was there anyone in favour of the orange route?

It was understood that more detailed plans, photographs and information would be available as part of the next stage of the consultation process. Following the 2012 consultation, 'hybrid' is now an option to be considered for the future. The NG will not be submitting planning applications or taking any action until the 2016 consultation has been completed. This stage of the planning and consultation has not yet been reached.

It was confirmed that the current infrastructure will remain over land and will not be moved.

It was noted that the NG have training opportunities for local people and that they are working with Coleg Menai to promote them.

It was noted that a public meeting is to take place March 26th, and the importance that each option is fairly presented was emphasised.

The NG representatives were thanked for their time.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch. / The meeting closed at 9pm.